Newport Women Remembered
1914 – 1918
Mosaic

Cofio Menywod Casnewydd
1914 – 1918
Mosäig

St Pauls Walk, Commercial Street, Newport NP20 1LS



Mae St Pauls Walk yn fan cyhoeddus a grëwyd ar ben isaf Commercial Street ar ôl i ofod masnachol a swyddfeydd nas defnyddid mwyach gael eu dymchwel. Roedd yr ardal sy'n cysylltu Commercial Street â'r Dolman, y Ganolfan Hamdden a Friars Walk, yn boblogaidd ar y dechrau ymhlith y bobl leol a oedd yn mwynhau'r gofod cyhoeddus newydd, ond buan yr aeth yn darged i ymosodiadau graffiti.

Ymchwiliwyd i ffyrdd o atal ymosodiadau graffiti. Crëwyd project cymunedol dan reolaeth Cyngor Dinas Casnewydd i wneud mosäig i gofio canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf ac a ariannwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Mae'r mosäig a grëwyd ac a ddyluniwyd gan grwpiau ieuenctid a phobl leol yn ategu'r gwelliannau a wnaed eisoes ac yn creu nodwedd diddorol yn yr ardal, gan ei gwneud yn fwy deniadol i drigolion ac ymwelwyr.

Arweiniodd y gwaith ymchwil at lyfr am wyth menyw o Gasnewydd a fu farw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, ond nid oedd neb bron yn gallu eu henwi



"Heb y cyfraniad a wnaed gan fenywod fel hyn, ni fyddai Prydain wedi llwyddo i ennill. Buon nhw yn help i ennill y rhyfel a thrwy wneud hyn, fe wnaethon nhw brofi bod hawl gan fenywod i chwarae rhan yn wleidyddol tra eu bod yn parhau yn famau ac yn wragedd ar yr un pryd."

Y Fonesig Rosemary Butler

Caroline Edwards
1887 - 1915

Nyrs

Gwasanaeth Nyrsio'r Llynges Frenhinol

Merch i forwr a foddodd mewn ffrwydrad damweiniol ar 31 Hydref 1915 yn 28 oed

Alice Guy
1879 - 1916

Nyrs

Ysbyty Menywod yr Alban

Ymunodd â'r ysbyty ym mis Mehefin 1916 a hwyliodd i Salonica lle roedd yn nyrsio cleifion a'r rhai a anafwyd.

Bu farw o ddysentri ar 20 Awst 1916 yn 37 oed.

Claddwyd hi yn Salonica.

Annie Brewer
1874 – 1921

Nyrs

Gwasanaethau Nyrsio ac Ambiwlans Ffrainc

Cafodd wobr y Legion d'Honneur a'r Croix de Guerre, a'i gwnaeth yn un o'r nyrsys pwysicaf i'w harwisgo gan unrhyw wlad yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Bu farw o gyflwr Bright (salwch ar yr arennau), ar 30 Ionawr 1921 yn 46 oed

Lilian Jones
1878 - 1916



Nyrs

Uned Cymorth Gwirfoddol

Wedi'i hyfforddi fel teleffonydd ond wedi gwirfoddoli fel nyrs.

Bu farw mewn damwain beicio ym Mryste ar 6 Mehefin 1916 yn 29 oed

Claddwyd hi ym Mynwent Sant Gwynllyw

Gertrude Dyer
1880 – 1918

Gweinyddwr

Corfflu Ategol Menywod y Fyddin

Ymunodd â'r uchod ym mis Awst 1917

Bu'n gweinyddu yn Ffrainc

Dychwelodd adref pan aeth yn sâl a bu farw o glefyd Bright's (arennau) yng Nghasnewydd ar 27 Ionawr 1918 yn 38 oed

Claddwyd hi ym Mynwent Christchurch

Frances Llewellyn-Jones
1894 – 1918

Gyrrwr

Awyrlu Brenhinol y Menywod

Ymunodd â'r WRAF ym mis Ebrill 1918

Bu farw o'r ffliw ym Mexborough ar 13 Tachwedd 1918 yn 24 oed

Claddwyd hi ym Mynwent Christchurch

Beatrice White
1886 – 1918

Teleffonydd

Corfflu Ategol Menywod y Fyddin

Hyfforddwyd yn deleffonydd.

Ymunodd â'r CAMF a bu'n gwasanaethu yn Ffrainc

Bu farw gartref o'r ffliw ar 29 Tachwedd 1918 yn 32 oed

Violet Phillips
1898 - 1919

Corfflu Ategol Menywod y Fyddin

Wedi'i hyfforddi i weithio ar y trenau ambiwlans

Bu farw o'r ffliw gartref ar 8 Mawrth 1919 yn 21 oed

Comisiynwyd yr artist Stephanie Roberts i greu'r mosäig. Mae Stephanie yn artist profiadol sydd wedi gweithio ym maes addysg gan greu projectau celf mosaigau a chelf i'r cyhoedd ers 1997. Gwahoddwyd nifer o grwpiau ieuenctid Casnewydd i helpu Stephanie i ddylunio a gwneud y mosäig. Cyngor Ieuenctid Casnewydd a The Bigger Picture dderbyniodd y gwahoddiad.

Mae Cyngor Ieuenctid Casnewydd yn fforwm a arweinir gan bobl ifanc sy'n rhoi llais iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir ar faterion sy'n bwysig i bobl ifanc Casnewydd.

Mae The Bigger Picture yn sefydliad nid-er-elw, â budd cymunedol iddo sy'n cynnig a chynnal gweithdai, digwyddiadau a phrojectau i'r gymuned ehangach ledled Casnewydd.

NEWPORT

What are the topics the Heritage Lottery want investigating and explained?
The THEN and NOW affects of WW1
Then - Roles of women in society, life-style, work place and at home
Now – How has WW1 changed women's lives today?
Who are the main characters of this story?
What objects or symbolisms can be used to help inform the story or lifestyle of this time and today?


WAR
WOMEN
NOW
Suffrage
LIFESTYLE

Home
feel empowered

Superdry
Original
Wandderaler

WOMEN BRITAIN SAY GO!
DON'T WASTE BREAD!
HELP
Defeat the U Boat
ON HER THEIR LIVES DEPEND
WHAT ARE YOU PREPARED TO DO?
WOMAN YOUR COUNTRY NEEDS YOU!
WOMEN'S ROYAL NAVAL SERVICE
VOTES FOR WOMEN
THE VOTE
JONES
DYER
EVERY WOMAN REMEMBERED
Daughters of Newport in the Great War
Sylvia Mason
Foreword by Dame Rosemary Butler DBE

Y Dyluniad Terfynol

“Mae’r mosäig yn portreadu tad, gŵr a mab i weithwraig ar ffurf yr arfau y mae hi’n eu cynhyrchu yn y ffatrïoedd yn ystod y dydd, tra bod ei phlentyn yn cuddio yn ei ffedog waith.
Mae’r fenyw gyfoes yn helpu’r weithwraig arfau - neu 'munitionette' – gan roi cymorth iddi drwy gydol y cyfnod anodd sy’n bygwth boddi ei theimladau, ei thwf a’i phŵer.”

Stephanie Roberts

Kamila J
photography

THERE IS ONLY
MICKEY M



LILIAN
KATE JONES
COFIO MENYWOD
CASNEWYDD
1914-1918
NEWPORT WOMEN
REMEMBERED
Kamila J
photography

Canfu'r gwaith ymchwil hwn fenywod o Gasnewydd sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at y ymdrech y Rhyfel Byd Cyntaf.

Ydych chi'n gwybod am rai eraill?

Am ragor o wybodaeth neu i rannu yr hyn a wyddoch am Fenywod Casnewydd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ewch i www.newport.gov.uk/St-Pauls-Walk.aspx